NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Tocilizumab ar gyfer trin arteristis cell anferth

18 Ebrill 2018

Mae tocilizumab (RoActemra) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer arteristis cell anferth mewn oedolion os yw'r canlynol yn gymwys:

- mae ganddynt afiechyd atgyfychol neu anhydrin
- nid ydynt wedi cael tocilizumab o'r blaen
- caiff tocilizumab ei roi am flwyddyn ar y mwyaf.

Os nad ydych yn gymwys i gael tocilizumab, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

### *Gwybodaeth a chymorth*

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Polymyalgia Rheumatica and Giant Cell Arteritis UK (PMRGCAuk), 0300 111 5090
- Vasculitis UK, 0300 365 0075

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2929-0

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights